



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddiad Data Lefel Uchel ar addasiadau tai 2018-19

Rhagfyr 2019

Crynodeb Gweithredol

- Mae addasiadau Tai yn helpu pobl i fyw'n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl yn eu cartref eu hunain.
- Cesglir gwybodaeth fel mater o drefn gan Lywodraeth Cymru ar addasiadau tai a ddarperir trwy'r rhaglen. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau dadansoddiad data annibynnol gan Practice Solutions Ltd a Data Cymru. Mae'r data yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.
- Derbyniwyd ffurflenni gan Lywodraeth Cymru gan y cyfan o'r 13 asiantaeth Gofal a Thrwsio, gan 19 o'r awdurdodau lleol, ac 17 o gymdeithasau tai.
- Mae'r set ddata ar gyfer 2018-19 yn cynnwys tua 39,000 o gofnodion. Mae hyn yn cymharu â 21,000 yn yr ymarfer casglu data cyntaf yn 2016-17; cynnydd o 85%.
- Bu gwelliant amlwg yn ansawdd y data a gasglwyd, ond mae angen gwelliant pellach. Yn 2018, cafodd 22% o'r cofnodion a dderbyniwyd eu dileu am eu bod yn ddyblyg neu oherwydd eu bod y tu allan i'r cyfnod casglu o gymharu â 57% yn 2016-17.
- Mae'r cynnydd o ran cwmpas ac ansawdd y data yn galonogol. Fodd bynnag, ni ddarparwyd data gan yr holl awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. O ganlyniad, nid yw'n bosibl darparu adroddiad cynhwysfawr ar y cymorth a ddarparwyd o dan y rhaglen genedlaethol hon.
- Mae lle i ddatblygu ymhellach i leihau gwallau wrth fewnbynnu neu drosglwyddo data i'r ffurflen casglu data electronig a ddefnyddir i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn gwella ansawdd data ymhellach.
- Cyfanswm yr addasiadau a gofnodwyd yn 2018-19 oedd 30,235.
- Darparwyd dau allan o dri o'r holl addasiadau a gofnodwyd (66%) gan asiantaethau Gofal a Thrwsio. Cyflawnodd awdurdodau lleol 28% a chymdeithasau tai 6%.
- O'r 19,744 o addasiadau a gyflwynwyd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol, roedd 18,884 (96%) yn costio £500 neu lai.
- Fe wnaeth awdurdodau lleol gwblhau 391 o addasiadau a gostiodd £10,000 neu fwy, allan o gyfanswm o 468 ar gyfer yr holl ddarparwyr.

- Er bod rhai addasiadau yn cael eu cyflawni'n gyflymach a rhai yn cymryd mwy o amser, fel rheol mae'n cymryd 9 diwrnod i gyflawni addasiad bach, 121 o ddiwrnodau ar gyfer addasiad maint canolig a 280 o ddiwrnodau ar gyfer addasiad mawr. Y ffigurau hyn yw gwerthoedd canolrif neu'r "gwerth canol" y data. Mae hwn yn ddangosydd gwell na'r cyfartaledd cymedrig, y gellir ei wro gan gyfran o addasiadau gydag amseroedd cyflawni llawer hirach.
- Yn nodweddiadol, y gost ar gyfartaledd am addasiad bach yw £105. Mae'n £4,631 am addasiad maint canolig a £12,731 am addasiad mawr.
- Cafodd tua thraean o'r holl addasiadau a gofnodwyd yn 2018-19 (35%) gefnogaeth arian gan y Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys a chyfran debyg (36%) gan awdurdodau lleol. Fe wnaeth yr arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid HWYLUISO helpu 5,356 o bobl eraill i dderbyn addasiadau.
- Mewn ychydig llai nag un o bob deg achos, adroddwyd bod yr addasiad wedi galluogi'r derbynnydd i gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Y prif ganlyniad mwyaf cyffredin a ragwelir ar gyfer addasiadau yw atal cwmpadau (54% o achosion) a mwy o annibyniaeth mewn bywyd bob dydd (28%), ond gall addasiadau gynnig llw o fuddion.
- Ar y cyfan, roedd 99.7% o'r rhai a dderbyniodd addasiad ac a gwblhaodd arolwg boddhad cwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwaith a gwblhawyd. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar tua un o bob pump o gyfanswm yr addasiadau a gofnodwyd.
- Gwnaed pedwar o bob pum addasiad mewn anheddau perchen-feddianwyr.

Cyflwyniad

1. Mae addasiadau tai yn chwarae rhan hanfodol o ran darparu cefnogaeth i bobl anabl a phobl hŷn, gan eu helpu i fyw'n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl yn eu cartref eu hunain. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at ansawdd bywyd pobl a'u hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
2. Mae addasiadau hefyd yn helpu i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty oherwydd anaf e.e. o gwympiadau, a gallant hefyd helpu pobl i ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.
3. Mae cwblhau addasiadau tai yn cefnogi blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, sydd wedu eu nodi yn 'Ffyniant i Bawb'¹ a 'Cymru Iachach'².
4. Cyflwynwyd rhaglen gyllid HWYLUSO ledled Cymru o 1 Ebrill 2016. Er mwyn ei chefnogi, mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £4 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol bob blwyddyn i wella'r cymorth sydd ar gael yn eu hardaloedd.
5. Ynghyd â datblygiad y rhaglen, cafwyd camau gweithredu i wella'r data a gasglwyd i fonitro'r holl addasiadau tai a gyflawnir. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gytuno ar set data safonol yn ogystal â dulliau o ddarparu gwybodaeth. Yn anochel, roedd gwahanol ddarparwyr sy'n gweithredu gwahanol raglenni wedi datblygu gwahanol systemau cofnodi. Roedd y newid i gasglu ac adrodd ar y set ddata newydd yn heriol. Cynhaliwyd ymarfer peilot yn 2016-17. Mae dysgu o hynny wedi llywio gwaith pellach gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd a chyflawnrwydd y data a gofnodwyd gan sefydliadau sy'n darparu addasiadau tai.

Yr adroddiad hwn

6. Mae'r adroddiad hwn yn ddadansoddiad annibynnol o'r set ddiweddaraf o ddata. Cafodd ei baratoi gan Practice Solutions Ltd., ymgynghoriaeth annibynnol sy'n darparu cefnogaeth i sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Fe wnaeth Data Cymru, sydd â chryn arbenigedd mewn casglu, dilysu a dadansoddi data ystadegol gan sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector, ddarparu cymorth i lanhau a dilysu data.

Data

7. Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Dyma'r ail adroddiad yn y gyfres. Roedd yr adroddiad cyntaf yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Medi 2016 a Rhagfyr 2017 a chafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2018³.
8. Casglwyd y data ar gyfer addasiadau tai a gyflawnwyd yng Nghymru gan awdurdodau lleol, asiantaethau Gofal a Thrwsio a chymdeithasau tai, gan gynnwys y cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr a gymerodd drosodd stoc dai rhai awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys addasiadau ar

¹ <https://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=en>

² <https://gov.wales/topics/health/publications/healthier-wales/?lang=en>

³ <https://gov.wales/enable-programme-analysis>

gyfer pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, y rhai sy'n berchen ar eu cartref a'r rhai sy'n rhentu'n breifat.

9. Cesglir ystod o ddata i fonitro perfformiad y rhaglen:

- Darparwr/ sefydliad sy'n darparu
- Daliadaeth tai ee tai cymdeithasol; perchen-feddianwyr; rhentu preifat
- Ffynhonnell yr atgyfeiriadau ar gyfer addasiad(au)
- Canlyniad a rhagwelir ee atal cwympiadau; mwy o annibyniaeth
- Math a maint yr addasiad ee bach; canolig; mawr
- Amser a gymerwyd i gwblhau'r addasiad(au)
- Cost yr addasiad(au)
- Effaith ar ryddhau o ysbyty
- Boddhad â'r addasiad(au)

10. Mae natur yr addasiadau'n amrywio. At ddibenion adrodd ar gyflawni, mae addasiadau wedi'u rhannu'n dri chategori:

- Bach ee gosod rheiliau i afael ynddynt neu reiliau ar risiau.
- Canolig ee cawodau y gellir cerdded i mewn iddynt, lifftiau ar risiau, rampiau.
- Mawr ee newidiadau strwythurol, mawr i eiddo, yn cynnwys estyniadau.

11. Mae addasiadau tai yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ffrydiau cyllido. Mae'r rhain yn cynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, y Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym, cyllid rhaglen "HWYLUSO", cyllid dewisol awdurdodau lleol, Grantiau Addasiadau Ffisegol a'r Gronfa Gofal Integredig.

Cyfyngiadau'r Data

12. Roedd set ddata 2018-19 yn cynnwys tua 39,000 o gofnodion unigol, o'i gymharu â dros 21,000 yn adroddiad 2016-17, a gasglwyd hefyd dros gyfnod ychydig yn hirach. Dyma gynnydd o 85%. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n darparu, i gynyddu'r data a gesglir am y rhaglen.

13. Dychwelwyd ffurflenni gan bob un o'r 13 o'r asiantaethau Gofal a Thrwsio, gan 19 o awdurdodau lleol, a gan 17 o gymdeithasau tai. Mae hyn yn golygu bod llawer mwy o ddata wedi'i gasglu ar gyfer 2018-19 o gymharu â 2016-17 pan ddarparwyd data gan 5 awdurdod lleol a 13 o gymdeithasau tai yn unig ochr yn ochr â'r hyn a ddarparwyd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio. Wedi dweud hynny, gan nad yw rhai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi darparu ffurflenni, nid yw'n set ddata cyflawn. Felly dylid trin y canlyniadau yn ofalus.

Ansawdd y data

14. Cyn ei ddadansoddi, roedd y data'n destun dilysiad trylwyr i ganfod cofnodion annilys, unrhyw ddyblygu a chofnodion anghyflawn.
15. Mae yna broblemau o hyd o ran casglu data ar gyfer y rhaglen. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ffurflen casglu data electronig newydd gyda nodweddion ymarferol mewnol, roedd darparwyr yn gallu ei throsysgrifo. Arweiniodd hyn at nifer fawr o eitemau data a allai fod wedi cael eu hystyried yn annilys. Lle bo modd, cywirwyd y gwerthoedd hyn. Lle nad oedd yn bosibl cywiro'r data yn gywir, cafodd ei drin fel data annilys. Er bod yr ymarfer dilysu yn drylwyr, mae'n bosibl bod gwallau yn parhau i fod yn bresennol mewn nifer fach o gofnodion unigol.
16. Ar y cyfan, bu gwelliant amlwg yn ansawdd y data a gasglwyd yn 2018-19. Yn 2016-17, cafodd tua 12,000 o'r 21,000 o gofnodion (57%) eu dileu fel cofnodion dyblyg. Yn 2018-19, o'r 38,768 o gofnodion a gyflwynwyd yn wreiddiol, cafodd 8,533 (22%) ei dileu am fod dyddiad yr addasiad y tu allan i'r cyfnod casglu.

Dadansoddiad

17. Mae'r dadansoddiad hwn yn disgrifio faint o addasiadau tai a gyflawnwyd a gan ba sefydliadau, y mathau o addasiadau a pham h.y. y canlyniad a ragwelir. Mae hefyd yn adrodd ar gost addasiadau, yr amser a gymerir i'w cyflawni i'r rhai oedd eu hangen, a materion cysylltiedig fel atgyfeiriadau i'r rhaglen a boddhad â'r gwaith a wnaed.

Cyflawni'r addasiadau tai

18. Mae data a gasglwyd yn dangos y cyflawnwyd ychydig dros 30,000 o addasiadau yn 2018-19. Dengys Tabl 1 nifer yr addasiadau a gofnodwyd yn ôl y math o ddarparwr:

Tabl 1: Nifer yr addasiadau a gofnodwyd, 2018-19, yn ôl y math o ddarparwr

Math o ddarparwr	Nifer	Y cant
Gofal a Thrwsio	19,901	65.8
Cymdeithas Dai	1,747	5.8
Awdurdod Lleol	8,504	28.1
Ni roddwyd enw'r darparwr	83	0.3
Cyfanswm	30,235	100.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

19. Darparwyd dau allan o dri o'r addasiadau (66%) gan asiantaethau Gofal a Thrwsio. Cyflawnodd awdurdodau lleol 28% a chymdeithasau tai 6%.

Cost yr addasiadau

20. Mae cost yr addasiadau ar gyfartaledd yn amrywio yn ôl y math o ddarparwr. Mae Tabl 2 isod yn dangos y costau cymedrig a chanolrif yn ôl y math o ddarparwr, gyda'r costau uchaf ac isaf.

Tabl 2: Cost yr addasiadau a gofnodwyd ar gyfartaledd, 2018-19, yn ôl y math o ddarparwr


Math o ddarparwr	Cymedr £	Canolrif £	Isaf £	Uchaf £
Gofal a Thrwsio	194	100	<10	43,516
Cymdeithas Dai	2,370	340	<10	78,247
Awdurdod Lleol	2,759	425	<10	109,278

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys
(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf

21. Gellir gwro'r ffigur cymedrig cyfartalog yn ôl cyfran fach o addasiadau sy'n costio cryn dipyn yn fwy. Felly, dangosir y gwerth canolrif neu "werth canol" y data fel dangosydd mwy nodweddiadol o'r gost ar gyfartaledd.
22. Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn cyflawni nifer fawr o addasiadau llai. Y gost gyfartalog gymedrig yw £194 ond y gost fwyaf nodweddiadol (gwerth canolrif) yw £100.

23. Cost addasiad a ddarperir gan awdurdod lleol, ar gyfartaledd, yw £2,759 ond mae nifer o addasiadau sy'n costio cryn dipyn yn fwy yn effeithio ar y ffigur hwn. Er enghraifft, y gost uchaf a gofnodwyd oedd £109,278 ond y gost nodweddiadol (gwerth canolrif) yw £425. Yn yr un modd, cost addasiad a ddarperir gan gymdeithas dai ar gyfartaledd yw £2,370 a'r gost fwy nodweddiadol yw £340.
24. Mae'r siart a ganlyn yn dangos nifer yr addasiadau a gyflawnwyd yn ôl cost.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

25. Yn ôl y disgwyl, mae cost addasiad ar gyfartaledd yn cynyddu gyda maint yr addasiad. Cost nodweddiadol addasiad bach ar gyfartaledd (gwerth canolrif) yw £105. Mae'n £4,631 am addasiad maint canolig a £12,731 am addasiad mawr. Mae Tabl 3 isod yn rhoi manylion llawn y cyfartaleddau ynghyd â'r costau isaf ac uchaf a gofnodwyd.

Tabl 3: Cost yr addasiadau, ar gyfartaledd, a gofnodwyd, 2018-19, yn ôl maint yr addasiad

Maint a math	Cymedr £	Canolrif £	Isaf £	Uchaf £
Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	16,474	12,731	325	109,279
Canolig e.e. addasiadau fel cawod i gerdded i mewn iddi, lifftiau grisiau a rampiau.	4,803	4,631	53	37,260
Bach e.e. rheiliau gafael a rheiliau grisiau.	199	105	<10	98,040

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilyd
(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf

26. Mae'r tabl yn dangos un eithriad i'r cynnydd o ran cost a maint. Cofnodir mai'r gost uchaf yn y categori "bach" yw £98,040. Gall hyn fod oherwydd bod yr addasiad wedi'i gofnodi'n anghywir neu o bosibl bod mwy nag un addasiad yn yr un eiddo yn cael ei gyfrif fel un addasiad, er nad oeddem yn gallu cadarnhau hyn fel rhan o'r ymarfer dilysu.

Ffynhonnell yr atgyfeiriadau

27. Gellir atgyfeirio am addasiadau tai mewn sawl ffordd wahanol. Mae hyn yn cynnwys hunan-atgyfeiriad gan rywun sy'n teimlo bod angen help arno a chan sefydliadau mewn maes tai iechyd a gofal cymdeithasol a allai ddod i gysylltiad â pherson sydd angen help. Un o nodau ehangach y rhaglen addasiadau tai yw gwella'r mynediad at addasiadau i helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.

28. Mae Siart 2 isod yn dangos ystod a graddfa gymharol yr atgyfeiriadau o wahanol ffynonellau.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys

29. Daw mwyafrif yr atgyfeiriadau ar gyfer addasiadau tai (54 %) gan Therapyyddion Galwedigaethol sy'n ymwneud â gofal pobl. Y prif ffynonellau atgyfeirio eraill yw asiantaethau Gofal a Thrwsio (11%) ac awdurdodau lleol (8%). Roedd hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan aelod o'r teulu neu ffrind gyda'i gilydd yn cyfrif am ychydig dros 7%.

30. Mewn ambell i achos, er y gall therapydd galwedigaethol gael ei gyfrif fel ffynhonnell atgyfeirio, maent wedi dod yn rhan o'r broses pan atgyfeirir rhywun sydd angen cymorth atynt.

Asesiad

31. Gofynnwyd i ddarparwyr gofnodi a oedd y gwaith addasu'n galw am asesiad gan therapydd galwedigaethol neu asesydd dibynadwy ai peidio. Mewn 284 o achosion, nid oedd angen asesiad.
32. Ac eithrio gwerthoedd coll ac annilys yn y set ddata (n = 3,231), lle'r oedd angen asesiad, fe'i cwblhawyd gan therapydd galwedigaethol mewn 79% o achosion ac mewn 16% o achosion gan asesydd dibynadwy.

Yr amser a gymerwyd i gyflawni

33. Mae nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd o'r amser y nodwyd yr angen am addasiad i'r dyddiad y cafodd ei gwblhau yn amrywio yn ôl natur yr addasiad(au) sydd ei angen/eu hangen.
34. Nifer cymedrig y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gyflawni addasiadau bach yw 17. Fodd bynnag, gellir gwyo hyn yn sgil cyfran fach o amseroedd cyflawni hirach o lawer ac felly, mae gwerth canolrif neu "werth canol" y data - 9 diwrnod - yn ddangosydd gwell o ran sawl diwrnod y mae'n ei gymryd yn nodweddiadol i gyflawni addasiad bach .
35. Mae Tabl 4 isod yn crynhoi nifer y dyddiau a gymerir i gyflawni addasiad neu addasiadau. Yn seiliedig ar werth canolrif cofnodion, yr amser nodweddiadol a gymerir i gyflawni addasiad maint canolig yw 121 o ddiwrnodau a 280 o ddiwrnodau ar gyfer addasiadau mawr.

Tabl 4: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd o'r dyddiad y canfuwyd yr angen i'r dyddiad y cwblhawyd yr addasiad, 2018-2019, yn ôl maint yr addasiad

Maint a math	Cymedr (Diwrnodau)	Canolrif (Diwrnodau)	Isaf (Diwrnodau)	Uchaf (Diwrnodau)
Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	324	280	0	1,737
Canolig e.e. addasiadau fel cawod i gerdded i mewn iddi, liffitiau grisiau a rampiau.	144	121	0	1,216
Bach e.e. rheiliau gafael a rheiliau grisiau.	17	9	0	793

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys
(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r diwrnod agosaf

36. Yr amser byrraf a gofnodwyd o ran cyflawni'r addasiadau o bob maint yw sero diwrnod. Er, i addasiadau bach, gallai hyn adlewyrchu canfod yr angen a chwblhau addasiad bach mewn un diwrnod, yr esboniad mwyaf tebygol am categorïau canolig a mawr yw gwall wrth fewnbynnu data. Fodd bynnag, nid oeddem yn medru cadarnhau hyn yn yr ymarfer dilysu. Yr amseroedd byrraf heb fod yn sero a gofnodwyd ar gyfer addasiadau bach, canolig a mawr oedd 1 diwrnod, 1 diwrnod a 5 diwrnod yn ôl eu trefn.
37. Yr amseroedd hiraf a gofnodwyd ar gyfer addasiadau bach, canolig a mawr yw 793 diwrnod, 1,216 diwrnod a 1,737 diwrnod ôl eu trefn. Nid yw'r set ddata yn cadw gwybodaeth am y rhesymau dros hyd yr amser a gymerir, a allai fod oherwydd dewis y cwsmer, rhesymau technegol, neu oedi na ellir ei osgoi fel rheolaeth gynllunio. Yn yr un modd, nid oes esboniad am y ffigur o 793 o ddiwrnodau a gofnodwyd yn erbyn y categori "bach".
38. Yn nodweddiadol, mae amseroedd cyflawni (gwerth canolrif) yn amrywio o 8 diwrnod i asiantaethau Gofal a Thrwsio i 38 o ddiwrnodau i awdurdodau lleol a 45 o ddiwrnodau i gymdeithasau tai. Mae Tabl 5 yn crynhoi data ar y nifer o ddiwrnodau a gymerwyd yn ôl y math o ddarparwr.


Tabl 5: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd o'r dyddiad y nodwyd yr angen hyd at y dyddiad a gwblhawyd yr addasiad, 2018-19, yn ôl y math o ddarparwr

Math o ddarparwr	Cymedr (Diwrnodau)	Canolrif (Diwrnodau)	Isaf (Diwrnodau)	Uchaf (Diwrnodau)
Gofal a Thrwsio	15	8	0	578
Cymdeithas Dai	97	45	0	1,109
Awdurdod Lleol	82	38	0	1,737

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys
(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r diwrnod agosaf

39. Cofnodwyd mai'r cyfnod hiraf o amser a gymerwyd ar gyfer addasiad gan Gofal a Thrwsio oedd 578 o ddiwrnodau. I gymdeithas tai roedd yn 1,109 o ddiwrnodau ac i awdurdod lleol roedd yn 1,737 o ddiwrnodau. Yn gyffredinol, ac fel y byddai disgwyl, po uchaf yw cost yr addasiad, yr hiraf y bydd yn ei gymryd. Mae Siart 3 yn dangos y patrwm hwn. Y ffigur isaf nad oedd yn sero ar gyfer pob math o sefydliad oedd 1 diwrnod.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

40. Mae Tabl 6 isod yn darparu gwybodaeth fanylach ar nifer y diwrnodau a gymerir i gyflawni addasiadau, a'r gost ar gyfartaledd.

Tabl 6: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd o'r dyddiad y nodwyd yr angen hyd at y dyddiad y cwblhawyd yr addasiad, 2018-19, yn ôl cost

Yn gyffredinol cost	Nifer y diwrnodau			
	Cymedr	Canolrif	Isaf	Uchaf
≤ £50	12	7	0	793
£50.01 - £100	12	6	0	487
£100.01 - £250	17	10	0	547
£250.01 - £500	24	14	0	448
£500.01 - £1,000	43	27	0	489
£1,000.01 - £2,500	95	71	0	1,216
£2,500.01 - £5,000	137	107	0	887
£5,000.01 - £7,500	163	140	0	834
£7,500.01 - £10,000	212	175	0	1,026
>£10,000	301	255	0	1,737

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys
(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r diwrnod agosaf

41. Ar gyfartaledd, fe wnaeth addasiad sy'n costio mwy na £10,000 gymryd 255 o ddiwrnodau i'w gwblhau.
42. Mae Tabl 7 dros y ddalen yn dangos nifer yr addasiadau a gyflawnwyd gan y tri math o ddarparwr a'r costau cyffredinol. Mae'n dangos yn dda, y pwynt a wnaed yn gynharach ynglŷn â gwaith asiantaethau Gofal a Thrwsio o ran canolbwyntio ar ddarparu addasiadau ar raddfa lai, ond er hynny addasiadau pwysig.
43. O'r 19,744 o addasiadau a gyflwynwyd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio, roedd 18,884 (96%) yn costio £500 neu lai.
44. Yn 2018-19, cwblhaodd awdurdodau lleol 391 o addasiadau a gostiodd £10,000 neu fwy, allan o gyfanswm o 468 ar gyfer yr holl ddarparwyr.

Tabl 7: Nifer yr addasiadau yn ôl y math o ddarparwr a'r gost gyffredinol, 2018-19

Cost cyffredinol	Math o ddarparwr		
	Awdurdod Lleol	Cymdeithas Dai	Gofal a Thrwsio
≤ £50	337	242	3,314
£50.01 - £100	1,499	203	6,645
£100.01 - £250	1,781	337	6,473
£250.01 - £500	794	149	2,452
£500.01 - £1,000	461	95	655
£1,000.01 - £2,500	535	149	83
£2,500.01 - £5,000	1,194	294	54
£5,000.01 - £7,500	1,167	143	55
£7,500.01 - £10,000	325	50	4
>£10,000	391	68	9
Cyfanswm	8,484	1,730	19,744

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys
(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf

45. Roedd mwyafrif yr addasiadau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn disgyn i ddau fand eang; rhwng £50.01 a £250 a rhwng £2,500.01 a £7,500.

Cyllid

46. Mae addasiadau tai a ddarperir i bobl yn defnyddio'r ffynonellau cyllid canlynol:

- Y Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys
- Cyllid rhaglen "HWYLUSO"
- Cyllid Awdurdod Lleol (Arall)
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Awdurdodau Lleol
- Cymdeithas Dai (adnoddau ei hun)
- Cymdeithas Dai (Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr)
- Grant Addasiadau Ffisegol
- Y Gronfa Gofal Integredig

47. Mae'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys yn rhaglen hirsefydlog sy'n darparu ar gyfer pobl sydd angen addasiadau cymharol fach fel rheiliau llaw a rampiau. Mae'n chwarae rhan bwysig o ran helpu pobl i ddychwelyd adref ar ôl aros yn yr ysbyty ond gall hefyd helpu i atal damweiniau fel cwympiadau a all arwain at dderbyn rhywun i ysbyty neu ofal preswyl. Ariannwyd y rhaglen gan Lywodraeth Cymru er 2002 ac mae'n unigryw i Gymru.

48. Darparwyd cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol o 2016-17 drwy'r rhaglen "HWYLUSO Mae hon yn gyllideb o gyllid cyfalaf y gellir ei defnyddio i ddarparu addasiadau na fyddai o reidrwydd yn bosibl eu hariannu trwy ffrydiau cyllido eraill. Mae'r rhaglen yn cefnogi integreiddio gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol ac asiantaethau iechedd ar lefel leol a rhanbarthol. y darperir addasiadau tai. Mae'r cyllid wedi darparu adnoddau ychwanegol i helpu pobl ymhob ardal.

49. Caiff Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl eu darparu gan awdurdodau lleol dan delerau Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Mae'r rhain yn grantiau gorfodol sydd ar gael i helpu pobl anabl a phobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Gall perchen-feddianwyr, landlordiaid a thenantiaid eiddo awdurdod lleol, eiddo ar rent preifat ac eiddo cymdeithas dai wneud cais am grant, sy'n destun prawf modd. Mae lefel y cyfraniad y mae'n rhaid i ymgeisydd ei wneud tuag at gost y gwaith yn dibynnu ar eu hincwm, eu cynilion a'u treuliau. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal yr asesiadau hyn. Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plant anabl wedi'u heithrio rhag profion modd.

50. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddisgresiwn i ariannu addasiadau heblaw trwy ddefnyddio Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a'r cyllid ychwanegol gan rhaglen HWYLUSO.

51. Mae Grantiau Addasiadau Ffisegol yn cael eu hariannu gan Raglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'n gynllun sy'n cael ei arwain gan y galw. Darperir yr arian i gymdeithasau tai wneud gwaith addasu i'w heiddo lle mae gan denant angen a nodwyd a lle mae therapydd galwedigaethol yn galw amdano.

52. Ni all y sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, sy'n gymdeithasau tai a ffurfiwyd o ganlyniad cymryd drosodd stoc dai rhai awdurdodau lleol, wneud cais am Grantiau Addasiadau Ffisegol. Maent yn ariannu addasiadau o'u

hadnoddau eu hunain. Gall cymdeithasau tai eraill hefyd benderfynu ariannu rhai addasiadau tai o'u hadnoddau ariannol eu hunain.

53. Sefydlwyd y Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa Gofal Canolraddol gynt) yn 2014-15 i gynorthwyo pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, osgoi mynd i mewn i ysbyty ac atal oedi cyn rhyddhau o ysbyty. Defnyddir peth o arian y rhaglen i gyflawni addasiadau tai.
54. Mae Tabl 8 yn dangos y gwahanol ffynonellau cyllid a ddefnyddir i gefnogi cyflawni addasiadau tai.

Tabl 8: Nifer yr addasiadau a gyflawnwyd, 2018-19, yn ôl ffrwd gyllido

Ffrwd Gyllido	Nifer	Y cant
Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys	10,468	34.8
Awdurdod Lleol (Arall)	6,827	22.7
Llywodraeth Cymru (HWYLUSO)	5,356	17.8
Awdurdod Lleol (Grantiau Cyfleusterau'r Anabl)	4,135	13.7
Y Gronfa Gofal Integredig	989	3.3
Cymdeithas Dai (LSVT)	849	2.8
Llywodraeth Cymru (Grantiau Addasiadau Ffisegol)	719	2.4
Arall	487	1.6
Tai Cymdeithasol (Traddodiadol)	275	0.9
Cyfanswm	30,105	100.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (i) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys
(ii) LSVT – Corff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Cymdeithas Dai a ffurfiwyd o ganlyniad cymryd drosodd stoc dai awdurdod lleol.

55. O'r 30,235 o addasiadau a gofnodwyd yn 2018-19, cafodd tua thraean (35%) gefnogaeth gan gyllid Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys. Roedd cyllid awdurdodau lleol yn cyfrif am gyfran debyg (36%).

56. Mae'r patrwm cyllido yn 2018-19 yn wahanol i'r patrwm a welwyd yn adroddiad cyntaf y rhaglen addasiadau tai, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd amlwg yn nifer yr awdurdodau lleol sy'n darparu data, i fyny o 5 yn 2016-17 i 19 yn 2018-19.
57. Mae'r cyllid ychwanegol a ddarperir i awdurdodau lleol i gefnogi cyflwyno rhaglen HWYLUSO yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i ddiwallu anghenion pobl sydd angen addasiadau. Yn 2018-19, fe wnaeth gefnogi'r gwaith sydd ei angen i helpu dros 5,000 o bobl, sydd ychydig yn llai nag 1 o bob 5 o'r holl addasiadau a gofnodwyd.
58. Mae cost addasiadau a gefnogir gan y gwahanol ffrydiau cyllido, ar gyfartaledd wedi ei nodi yn Nhabl 9 isod.

Tabl 9: Cost addasiadau ar gyfartaledd, 2018-19, yn ôl ffrwd gyllido

Ffrwd Gyllido	Cost (£)			
	Cymedr	Canolrif	Isaf	Uchaf
Y Gronfa Gofal Integredig Awdurdod Lleol (Grant Cyfleusterau'r Anabl)	132	90	30	1,167
Awdurdod Lleol (Arall)	4,564	3,779	<10	109,280
Arall	600	135	<10	98,040
Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys	390	138	11	11,029
Cymdeithas Dai (Traddodiadol)	126	96	<10	894
Cymdeithas Dai (LSVT)	125	91	18	1,681
Cymdeithas Dai (LSVT)	1,032	171	<10	21,185
Llywodraeth Cymru (HWYLUSO)	512	146	<10	43,516
Llywodraeth Cymru (Grantiau Addasiadau Ffisegol)	4,763	3,570	40	78,247

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (i) Ac eithrio cofnodion gyda gwerthoedd coll neu annilys


(ii) LSVT – Corff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Cymdeithas Dai a ffurfiwyd o ganlyniad cymryd drosodd stoc dai awdurdod lleol.

59. Y costau nodweddiadol (gwerthoedd canolrif) ar gyfer addasiadau a ariannwyd gan y Gronfa Gofal Integredig, cymdeithasau tai traddodiadol (adnoddau eu hunain) a'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys oedd £90, £91 a £96 yn ôl eu trefn. Y gost nodweddiadol ar gyfer addasiad a ariannwyd gan gynllun Grant Addasiadau Ffisegol Llywodraeth Cymru oedd £3,570 a £3,779 gan Grantiau Cyfleusterau'r Anabl awdurdodau lleol.

Galluogi rhyddhau o'r ysbyty

60. Yn ogystal â helpu i atal arhosiad diangen mewn ysbyty oherwydd cwmpadau, gall addasiadau tai hefyd hwyluso rhyddhau rhywun, a thrwy hynny helpu i ryddhau gwelyau ar ôl i'r driniaeth ddod i ben, gan helpu i leihau Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.

61. O'r 30,235 o addasiadau a gofnodwyd, nododd bron i 2,500 (8%) fod yr addasiad (au) wedi galluogi'r derbynnydd i gael ei ryddhau o'r ysbyty.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

62. Ariannwyd mwyafrif yr achosion a alluogodd ryddhau o'r ysbyty (55%) gan y Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys tra bod 30% yn cael ei ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig.

Canlyniad a ragwelir

63. Yn ogystal â helpu i wella ansawdd bywyd pobl ac iechyd a lles corfforol a / neu feddyliol, gall gosod addasiadau gynnog buddion eraill. Mae Siart 5 dros y ddalen yn tynnu sylw at y canlyniadau a ragwelwyd o ganlyniad trefnu addasiad i rywun.
64. Y canlyniad mwyaf cyffredin a ragwelir yw atal cwympiadau (54%), i'w ddilyn gan fwy o annibyniaeth mewn bywyd bob dydd (28%). Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r prif ganlyniad a ragwelir. Mae llawer o fuddion yn bosibl. Er enghraifft, gall addasiad sy'n caniatáu rhyddhau o'r ysbyty hefyd atal rhywun rhag cwmpo fan fydd yn ôl gartref a gall gynyddu eu hannibyniaeth wrth fyw o ddydd i ddydd.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

65. Mae'r canlyniad a ragwelir yn amrywio yn ôl maint yr addasiad a ddarperir. Y prif ganlyniad a ragwelir ar gyfer bron i ddau o bob tri addasiad bach (60%) yw atal cwympiadau. I addasiadau canolig a mawr, atal cwympiadau yw'r prif ganlyniad a ragwelir mewn 18% ac 11% o achosion yn ôl eu trefn.
66. Am bron i un o bob deg addasiad bach (9%), y prif ganlyniad yw atal arhosiad mewn ysbyty. Mae hyn, ynghyd â'r rôl y mae addasiadau yn ei chwarae o ran atal cwympiadau ac anafiadau, a all arwain at arhosiad mewn ysbyty am driniaeth, yn helpu i leihau'r galw ar y GIG.
67. Y prif ganlyniadau a ragwelir ar gyfer addasiadau canolig a mawr yw mwy o annibyniaeth mewn bywyd bob dydd. Hwn oedd y prif ganlyniad a ragwelwyd ar gyfer tri chwarter yr addasiadau maint canolig (76%) ac 81% o addasiadau mawr.

Bodddhad cwsmeriaid

68. Yn gyffredinol, roedd 99.7% o bobl a dderbyniodd addasiad tai ac a ddarparodd adborth yn "Fodlon" neu'n "fodlon iawn" gyda'r gwaith a wnaed. Roedd mwyafrif helaeth y bobl yn fodlon iawn (87%).




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

69. Mae'r graddfeydd uchod yn seiliedig ar gyfradd ymateb o 22% i'r arolwg bodddhad cwsmeriaid. Mae hyn yn arwydd da o foddhad pobl â'r gwaith a wnaed ar eu cyfer ond gydag ymatebion yn cyfrif am un o bob pum addasiad yn unig a gofnodwyd, ni ellir ei ystyried yn gynrychioliadol o'r rhaglen yn gyffredinol.

Daliadaeth

70. Gwnaed pedwar o bob pum addasiad (81%) mewn anheddau perchen-feddianwyr.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

71. O'r gweddill, roedd 8% o'r addasiadau i anheddau awdurdodau lleol, roedd 7% mewn anheddau sy'n eiddo i gymdeithasau tai (cymdeithasau tai traddodiadol a'r rhai a grëwyd trwy drosglwyddo stoc dai awdurdodau lleol), a 3% mewn llety rhent preifat.

Cyfraniad Ariannol

72. Gwnaed cyfraniad ariannol tuag at yr addasiad mewn 257 o achosion. Mae Siart 8 yn dangos cyfraniadau a wnaed yn ôl maint yr addasiad.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

73. Mewn dau allan o bob tri achos, pan wnaed cyfraniad (67%) roedd ar gyfer addasiad maint canolig.